



Cyngor Dinas Casnewydd
Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
2017 – 2020

CYNNWYS**TUDALEN**

Cyflwyniad	3
Adran 1: Gweledigaeth, nod ac amcanion	4
Adran 2: Mynediad	9
Adran 3: Deilliannau 1 - 7	10
Deilliant 1	10
Deilliant 2	16
Deilliant 3	17
Deilliant 4	17
Deilliant 5	20
Deilliant 6	23
Deilliant 7	24
Atodiad 1: Data	27
Atodiad 2: Rhaglen a Thargedau Urdd Gobaith Cymru	35
Atodiad 3: Rhaglen a Thargedau Menter Iaith Casnewydd	37
Atodiad 4: Data Mudiad Meithrin	38
Atodiad 5: Rhestr o Ymgylgoreion Statudol	39
Atodiad 6: Amserlenni	40

Cyngor Dinas Casnewydd - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017 - 2020**CYFLWYNIAD:**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (y Cynllun Strategol) wedi cael ei ddiwygio nifer o weithiau ers y cyflwyniad cyntaf i'r Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Gymraeg ym mis Chwefror 2017. Yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2017, ystyriodd a chymeradwyodd Cabinet Casnewydd newidiadau a wnaed yn ymateb i ganlyniad adolygiad yr holl Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a wnaed gan Aled Roberts a chafwyd ymgynghoriad arall â rhanddeiliaid a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2017. Cynhwyswyd yr adolygiadau hyn yn y Cynllun Strategol.

Ar 16 Mawrth 2018, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at yr holl Gynghorau i ailadrodd yr ymrwymiad i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac, fel rhan o'r ymrwymiad, y byddai arian cyllid gwerth £30 miliwn yn cael ei roi i gynorthwyo projectau cyfalaf sydd â'r nod penodol o ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cyflwyno cais cost lawn am arian cyfalaf yn erbyn y grant hwn.

Gan ddibynnu ar gymeradwyo arian cyllid, mae'r Cyngor yn bwriadu sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle dros dro, wrth aros am benderfyniad ar leoliad parhaol. Y dymuniad yw agor yr ysgol egin hon ym mis Medi 2019. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn bosibl oni bai bod y Cyngor yn derbyn hysbysiad mewn pryd ac yn fuan ynghylch canlyniad y cais, oherwydd y byddai ar y cynllun angen cynnig ad-drefnu ysgol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru.

Os caiff ei chymeradwyo, bydd yr ysgol newydd yn ysgol gynradd ddwy ffrwd yn unig a bydd hyn, yn ei dro, yn golygu cynnydd 50% yn nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas (o bedwar dosbarth mynediad mewn tair ysgol i chwe dosbarth mynediad mewn pedair ysgol).

Dyddiad y Cynllun Strategol gwreiddiol oedd 2017 ac mae hwn wedi bod yn destun nifer o adolygiadau ers y drafft cyntaf. Mae'r wybodaeth sydd yn y cyflwyniad hwn felly'n cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddatganiadau eraill yng nghorff y cynllun. Caiff cynllun gweithredu ei lunio yn dilyn cymeradwyaeth gan y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Gymraeg.

ADRAN 1: Gweledigaeth, nod ac amcanion Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf.

Gweledigaeth:

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd, fel aelod o Gonsortia De-ddwyrain Cymru, yn cymryd rhan mewn gwaith datblygu safonau'r Gymraeg mewn addysg er mwyn rhoi creu gweithlu medrus, dwyieithog i Gymru ddwyieithog, gan gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Byddwn yn gweithio gydag eraill fel rhanbarth i roi'r gallu a'r cynaliadwyedd i ysgolion a darparwyr addysg trwy'r holl ystodau oedran a sectorau iaith er mwyn iddynt godi safonau yn y Gymraeg a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd, cymunedau a gweithleoedd. Byddwn yn ceisio hybu a chynnig darpariaeth leol, hygyrch a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

Amcanion:

- Mewn cydweithrediad â holl aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg, caiff strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg ei datblygu, ei rhoi ar waith, ei hadolygu a'i diwygio dros gyfnod y strategaeth hon.
- Hyrwyddo'r Gymraeg yn ninas Casnewydd trwy ddylunio a gweithredu porthol 'Dysgu a Gweithio yn Gymraeg' ar hafan gwefan y Cyngor fel offeryn mynediad ar gyfer cysylltiadau â gwefannau dysgu a gweithio sy'n cynnig gwasanaethau yn Gymraeg – gellir datblygu cwmpas a lled y cysylltedd dros gyfnod y Cynllun Strategol hwn.
- Hyrwyddo darparu addysg a gofal plant dwyieithog ar gyfer plant 0 i 25 oed ar ffurf taflen 'Manteision Dwyieithrwydd' i ddangos mynediad i 'Weithio, Dysgu a Chwarae yn Gymraeg', i'w hadolygu bob blwyddyn a'i datblygu trwy gyfnod y Cynllun Strategol hwn.
- Parhau i roi sail i Gynllun Busnes Strategol Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnal a Gofal Plant, yn benodol Blaenoriaeth 3: Gwella ymwybyddiaeth o ofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth addysg cyn ysgol, a'u hargaeledd, ar draws Casnewydd, wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n "Hyrwyddo lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac yn sicrhau bod digon o ofal plant ac addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael ar draws Casnewydd".
- Cyn agor ysgol newydd, bydd y Cyngor yn pennu sut ysgol y dylai fod, i ateb ein cyfrifoldebau statudol o ran y galw cynyddol am leoedd yn y ddinas.
Byddai hyn yn cynnwys ystyried opsiynau Cymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith. Ni fydd y broses bennu'n gyfyngedig i ardal gyfagos y datblygiad. Hefyd, bydd yr awdurdod yn ymgysylltu â chyrrff llywodraethu Ysgol Gymraeg Casnewydd ac Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ac yn ystyried sut y gellir eu hehangu yn rhaglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif yn y dyfodol.
- Cynhelir arolygon i fesur galw rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn (bob tymor yr hydref) trwy bostio holiaduron i rieni plant dan ddwy oed a chaiff cynllun gweithredu ei ddatblygu a'i gyhoeddi (bob tymor yr haf) i ymateb i ganfyddiadau pob arolwg.
- Cynyddu nifer y disgyblion a asesir yn Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen o 5.2% i 5.6% erbyn 2018.

- Cynyddu nifer y disgyblion a asesir yn Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 o 2.6% i 3.2% erbyn 2018.
- Gweithio gydag awdurdodau rhanbarthol a chyfagos ar gynllunio'r gweithlu i sicrhau bod rolau arbenigol megis Seicolegwyr Addysg ar gael i gynorthwyo ein hysgolion a'n lleoliadau cyfrwng Gymraeg.

Datganiad:

Bwriedir i'r Cynllun Strategol 2017-2020 ddangos cysondeb â strategaeth bartner 5 mlynedd y Gymraeg ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd a chydabod ac ymateb i uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.

Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd a ddatblygodd y Cynllun Strategol hwn. Rhestrir yr ymgynghoreion yn Atodiad 4, ac mae'r amserlenni ymgynghori sy'n arwain at gyflwyno i Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn Atodiad 5. Mae'r cymeradwyo ac adolygu yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cynnwys Grŵp Craffu Dysgu, Hamdden a Gofal Cyngor Dinas Casnewydd a chaiff hefyd ei gyflwyno i'r Cabinet llawn er gwybodaeth.

Ar yr un pryd, caiff papur ei gyflwyno i'r Cabinet i gymeradwyo'r Strategaeth Gymraeg 5 Mlynedd ddrafft ar gyfer Casnewydd, a gaiff ei lansio ar gyfer ymgynghoriad yn ystod yr un amserlen â'r Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg. Mae strategaeth y Cyngor yn nodi sut byddwn yn 'hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg'. Y weledigaeth ddrafft ar gyfer y Cynllun iaith 5 mlynedd yw bod 'Pobl Casnewydd yn cael defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd...'. Y targed yw codi nifer y disgyblion yng Nghasnewydd sydd mewn addysg cyfrwng Gymraeg o 892 yn 2016/17 i 1,250 neu fwy yn 2022/23. Mae hyn yn gynydd o 3.9% o'r boblogaeth oedran ysgol i 5%. Mae hyn ar sail llenwi dosbarthiadau derbyn y 3 ysgol gynradd Gymraeg, sef 107 lle y flwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf, gan gychwyn yn 2017/2018. Ym mis Rhagfyr 2017, cytunodd y Cabinet i gynyddu'r nifer hwn i gynnwys hwyrddyfodiaid ychwanegol a fyddai'n elwa o fynd i raglen drochi. Y targed yw 10 plentyn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg.

Cofnodwyd y sefyllfa bresennol o ran lleoedd gwag yn ein hysgolion cyfrwng Gymraeg ym mis Chwefror 2017 – cyfanswm o 101 o leoedd gwag; hynny yw mae 14% o'r lleoedd mewn ysgolion cynradd Gymraeg yn wag. Mae LIC yn monitro sut rydym yn cynllunio lleoedd ysgol ac yn annog awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau bod ganddynt 10% neu lai o leoedd gwag, lle bo modd. Os yw'r sefyllfa yno yn fwy na 10%, fel arfer cyflwynir datganiad strategol eglurhaol – cynhelir y lleoedd gwag hyn ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw gynydd posibl yn y galw am leoedd ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein sector cynradd.

Targed arall felly yn y Cynllun Strategol dros y tair blynedd nesaf yw sicrhau bod ein hysgolion cynradd cyfrwng Gymraeg yn llenwi, er mwyn cynyddu'r niferoedd yn yr ysgolion hynny o 619 (mis Hydref 2016) i 769 erbyn mis Mawrth 2020, gan ystyried newydd-ddyfodiaid ychwanegol. Hefyd, mynd â'r plant hynny trwy'r system addysg i'r Ysgol Uwchradd Gymraeg newydd – Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Mae poblogaeth Dinas Casnewydd yn cynyddu o ganlyniad uniongyrchol i fewnfudwyr economaidd, mewnfudwyr o'r UE a'r tu allan i'r UE a

datblygiadau tai. Dengys cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol y cododd poblogaeth Casnewydd 6.4% rhwng 2001 a 2011. Roedd amcan boblogaeth Casnewydd yn 146,841 yn 2014. Rhagfynegir y bydd y twf poblogaeth hwn yn parhau, gan awgrymu y gallai poblogaeth Casnewydd fod tua 160,000 erbyn 2026.

Mae nifer y disgyblion yn yr ysgolion a gynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd wedi cynyddu o ryw 1,300 rhwng 2011 a 2016. Mae'r cynnydd yn rhannol oherwydd y bu cynnydd yn y ddarpariaeth o ddosbarth meithrin yn ysgolion cynradd y ddinas, ynghyd â chynnydd cyson yn y boblogaeth fel y'i nodwyd uchod. Yn 2011, roedd nifer y plant 3-19 oed yn yr ysgolion a gynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd bron yn 24,000. Yn 2016, roedd dros 25,000 o ddisgyblion yn yr ysgolion a gynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Caiff cynllunio lleoedd ysgol ei lywodraethu gan Grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol aml-ddisgyblaeth, sy'n adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli Addysg a Bwrdd y Rhaglen Cyfalaf Gwasanaethau Pobl. Caiff poblogaethau a rhagfynegiadau disgyblion eu hadolygu bob tymor yng nghyd-destun lleoedd ysgol ar gyfer pob ysgol. Mae gan yr ystâd cyfrwng Cymraeg bresennol ar y tair safle ysgol gynradd ddigon o le ar gyfer twf yn unol â Strategaeth Gymraeg 5 mlynedd y Cyngor, hyd at fis Medi 2022.

Cafwyd trafodaethau ynghylch materion cynllunio gan gynnwys atebion i ehangu. Fodd bynnag, er nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu ar hyn o bryd y bydd galw digonol yng Nghasnewydd i gyfiawnhau ehangu ymhellach o fewn yr amserlen uchod, mae'n briodol ystyried galw newydd annisgwyl a ddaw o ganlyniad i hyrwyddo'r Gymraeg a throchi ar gyfer hwyrdyfoidiaid. Y camau gweithredu parhaus felly, dros gyfnod y Cynllun Strategol hwn, yw i gynllunio lleoedd mewn ysgolion Cymraeg gynnwys arolwg blynyddol o alw rhieni, ailasesu nifer y lleoedd ym mhob un o'r tair ysgol gynradd Gymraeg (er mwyn datblygu cynlluniau ehangu mewn da bryd) a monitro'r rhagolygon mewn perthynas â'r galw fesul tymor.

Wrth i'r Cyngor ystyried y cyfnod o 2020 a'r tu hwnt, gallai'r cynlluniau datblygu tai y mae'r Cyngor yn gwybod amdanynt ar hyn o bryd greu galw o bron i 2,000 o leoedd cynradd a thros 900 o leoedd uwchradd rhwng 2021 a 2026, nid yw'n bosibl rhagfynegi blynyddoedd penodol. Mae'r rhagolwg hwn yn cadarnhau bod angen cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg ychwanegol ar gyfer disgyblion oedran cynradd ac uwchradd a gallwn ystyried amcangyfrif o gyfran y boblogaeth o ddisgyblion a fydd yn ceisio addysg cyfrwng Cymraeg. Mae maint y datblygiad presennol ac arfaethedig yng Nghasnewydd yn gwneud hyn yn arbennig o heriol, o ystyried cyfyngiadau'r ystâd ysgolion a'r seilwaith yn y ddinas ar hyn o bryd.

Mae cofnodion Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion mis Ionawr 2016 yn dangos galw sefydlog am addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer bron i 5% o ddisgyblion oedran ysgol gynradd. Daw hyn o'r dadansoddiad o arolygon rhieni yn 2012 a 2015, a nododd y gallai'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg fod tua 5% y boblogaeth oedran cynradd yn y blynyddoedd nesaf.

Yn ôl Cyfrifiad Dosbarth mis Hydref 2016, roedd 619 o ddisgyblion (D – B16) yn ein tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae gan y tair ysgol hyn lle ar gyfer 719 o ddisgyblion ar hyn o bryd – ysgol egin yw un, heb gyrraedd Blwyddyn 6 eto (bydd y nifer yn cynyddu i 749 ar ôl y

flwyddyn nesaf). Yn y flwyddyn academaidd hon (2016/17), mae gennym 14% yn ormod o le drwy'r tair ysgol gynradd.

Fodd bynnag, ym mis Medi 2016, roedd y galw am leoedd dosbarth derbyn cyfrwng Cymraeg yn fwy nag erioed. Roedd 109 o leoedd dosbarth derbyn rhwng y tair ysgol. Golyga hyn fod 5.74% o holl garfan dosbarth derbyn y ddinas gyfan yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Petai'r duedd hon o bron 6% yn parhau dros y 5 mlynedd nesaf, byddai hyn yn gofyn am gynyddu lle i 0.5 dosbarth mynediad neu 105 o leoedd ysgol ychwanegol.

Felly, mae'n addas peidio â dibynnu ar dueddiadau hanesyddol neu sy'n ymddangos yn gyson, ond datblygu barn ar sail tystiolaeth ochr yn ochr â'r fformwlâu rhagfynegi safonol/traddodiadol a data o ddatblygiadau tai, er nad oes modd eu rhagfynegi, a monitro ceisiadau derbyn i ysgolion yn graff.

Mewn cyfnod o ddatblygiadau tai cynyddol a phoblogaeth sy'n tyfu ac yn creu galw am ysgolion ychwanegol, mae'n briodol bod y Polisi Addysg trwy'r Gymraeg yn cynnwys datganiad sy'n dweud y bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn sefydlu ysgolion ag un iaith. Gall y dull hwn gynnal y datblygiad ysgol egin achlysurol ar yr amod mai ateb dros dro ydyw, cyn pennu ateb mwy parhaol.

Mae pum ysgol dan arweiniad datblygwr tai (Chwefror 2017) ar waith ar draws y ddinas dros y ddwy i ddeng mlynedd nesaf. Yn y dyfodol, cyn y broses ffurfiol o agor ysgol newydd, byddem yn pennu sut y dylid ei dynodi er mwyn bodloni ein cyfrifoldebau statudol dros y galw cynyddol am leoedd yn y ddinas. Byddai hyn yn cynnwys opsiynau Cymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith.

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cydweithio'n sylweddol â'r Mudiad Meithrin i greu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau nas cynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda lle ar gael ar y safle, mae cynlluniau paratoi yn mynd rhagddynt i ddatblygu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnion i gynorthwyo cyfleuster Blynyddoedd Cynnar. Bydd hyn yn galluogi pontio diffwdan o'r dosbarth meithrin i ysgol gynradd Gymraeg i bob disgybl. Bydd rheoli pontio yn hollbwysig rhwng yr ysgol a'r dosbarth meithrin ym mhob Safon Uwchc ym mhob cyfle.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud datblygu cynaliadwy y prif egwyddor drefniadol ym mywyd cyhoeddus Cymru. Mae saith nod yn y Ddeddf ac un o'r rhain yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu". Golyga hyn fod dyletswydd eisoes ar y Cyngor i gyrraedd y targed hwnnw yn y tymor hir fel un o'r camau er mwyn creu Cymru rydym am ei gweld yn 2050. Ystyrir y Strategaeth Gymraeg 5 mlynedd a'i hamcanion wrth lunio Amcanion Lles Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer mis Mawrth 2017 a Chynllun y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mawrth 2018.

Gall y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg chwarae rôl wrth gyflawni'r targedau sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a hefyd gefnogi rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith, sydd eisoes wedi'i sefydlu yn rhaglen y Cyngor fel un o'r naw Amcan Cydraddoldeb. Sicrheir hyn trwy fodel llywodraethu ar sail dull partneriaeth cadarn gan aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Addysg. Mae'r aelodaeth yn cynnwys:

- Cynrychiolaeth o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg;
- Cynrychiolaeth ysgol uwchradd o Ysgol Gyfun Gwent Is Coed;
- Menter Iaith Casnewydd (mae'r rhaglen a'r targedau yn Atodiad 3);
- Urdd Gobaith Cymru (mae'r rhaglen a'r targedau yn Atodiad 4);
- Coleg Gwent;
- Prifysgol Cymru;
- Dechrau'n Deg;
- Mudiad Meithrin;
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG);
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg;
- Uwch Dîm Rheoli Addysg – Gwella, Cynhwysiant, Adnoddau a Chynllunio a Pholisi;

Mae Fforwm Cymraeg mewn Addysg Casnewydd wedi cytuno ar gyloch gorchwyl sy'n datgan mai swyddogaeth y Fforwm yw cynnig sianel gyfathrebu ffurfiol rhwng Cyngor Dinas Casnewydd, ei ysgolion a gynhelir a sefydliadau partner eraill sydd â diddordeb mewn addysg Gymraeg yn ardal Casnewydd, yn y materion sy'n gysylltiedig ag addysg Gymraeg fel y'u nodir yn 'Strategaeth Cymraeg Mewn Addysg' Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Casnewydd. Yn benodol, bydd y fforwm yn:

- Grŵp ymgynghorol ar gyfer datblygu'r Cynllun Strategol [a'r Grant Cymraeg mewn Addysg cysylltiedig – sydd bellach wedi dod i ben];
- Monitro gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- Monitro darpariaeth addysg Gymraeg fel grŵp ymgynghorol ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol;
- Rhoi adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru yn disgrifio'r cynnydd o ran gweithredu targedau'r Cynllun Strategol o fewn yr amserlen a gymeradwywyd.

Mae'r adrannau sy'n dilyn yn dangos dull partneriaeth gyflawn o lunio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae aelodau Fforwm Cymraeg mewn Addysg Casnewydd wedi parhau i ddatblygu'r Cynllun Strategol gyda chymorth adborth a chynngor sylweddol gan Gomisiynydd y Gymraeg dros y gaeaf yn 2016/17 cyn cyflwyniad cyntaf hwyr ym mis Chwefror 2017 (gweler cyflwyniad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg).

ADRAN 2: Mynediad

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol dan Adran 10 Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r datganiad canlynol yn ymwneud â hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd o ran trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol.

Yn unol â pholisi'r Cyngor, rhoddir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion oedran cynradd sy'n byw ddwy filltir neu ymhellach o'u hysgol ddalgylch agosaf neu'r ysgol agosaf sydd ar gael, ac i ddisgyblion oedran uwchradd sy'n byw dair milltir neu ymhellach o'u hysgol ddalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Hefyd, ac yn unol â Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru), bydd disgybl yn cael cludiant am ddim i ysgol arall os yw honno'n nes na'r ysgol ddalgylch, ar yr amod nad yw'n nes na'r isafswm pellter.

Gan fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi sefydlu ac agor ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd, bydd yr her dros y blynyddoedd nesaf yn ymwneud â'r brodyr a'r chwirydd sy'n derbyn eu haddysg rhwng Ysgol Gyfun Gwynllyw ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Mae Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, ar gyfer Casnewydd a de Sir Fynwy, yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth a chydweithrediad ag Ysgol Gyfun Gwynllyw ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i gynnig darpariaeth 6ed dosbarth ac â Choleg Gwent ar gyfer cynnig ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, her bellach yw'r ffaith nad yw cludiant o'r cartref i'r ysgol i blant dros 16 yn statudol. Mae hynny yn ôl disgrisiwn yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac felly gellir ei weld her neu rwystr ychwanegol rhag cael mynediad at addysg, hyfforddiant a dysgu.

Er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd i hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, byddai angen i'r Cyngor ail-ystyried ei Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, yn arbennig o ran brodyr a chwirydd a darpariaeth ôl-16. Byddai'n anodd addasu polisi i gynorthwyo neu i gynyddu mynediad at leoliadau addysg Gymraeg os nad yw disgyblion sy'n mynychu lleoliadau cyfrwng Saesneg yn cael yr un fantais, a hefyd oherwydd pryderon dros ddichonoldeb ariannol gwneud hynny.

ADRAN 3: Sut bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cyflawni Deilliannau 1-7 mewn perthynas ag adran 19 y canllaw.

Mae data (sydd ar gael) yn Atodiad 1 i gefnogi ein targedau.

Deiliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Dyma'r sefyllfa bresennol (mis Ionawr 2017) o ran nifer y plant saith mlwydd oed sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'n targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf:

- Nifer y plant saith oed (Blwyddyn 3) sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yw 87 (ym mis Ionawr 2017), sy'n 4.52% o'n carfan gyfan ym Mlwyddyn 3.
Llenwyd y garfan oedran derbyn yn yr un flwyddyn hyd ei eithaf (ac un yn ormod), ac erbyn i'r rhain ddod yn 7 oed yn 2019/20 (cyrraedd Blwyddyn 3), byddant yn cynrychioli tua 5.62% o'r garfan gyfan.
- Mae'r targedau hyn wedi eu gosod ar sail y carfannau presennol yn y tair ysgol gynradd Gymraeg yn symud trwy'r blynyddoedd ysgol, gan gymryd y bydd y blynyddoedd derbyn a ddaw i'r ysgolion hyn yn llenwi pob un o'r 107 o leoedd sydd ar gael.
- Bydd trochi hwyrdyfydiaid yn brif agwedd ar ein strategaeth hyrwyddo a bydd ein targed ar gyfer cyfanswm nifer y plant mewn addysg gynradd Gymraeg yn codi i 732 (10 plentyn ychwanegol y flwyddyn).
Nid yw'n bosibl rhagfynegi ym mha flynyddoedd caiff y plant hyn eu derbyn.

2016/17	D	BI1	BI2	BI3	BI4	BI5	BI6
Cyfanswm Disgyblion Cynradd Cyfrwng Cymraeg	108	92	92	87	97	73	71

2017/18	D	BI1	BI2	BI3	BI4	BI5	BI6
Cyfanswm y Disgyblion Cynradd Cyfrwng Cymraeg	<u>110</u>	108	92	92	87	97	73

2018/19	D	BI1	BI2	BI3	BI4	BI5	BI6
Cyfanswm y Disgyblion Cynradd Cyfrwng Cymraeg	<u>111</u>	<u>110</u>	108	92	92	87	97

2019/20	D	BI1	BI2	BI3	BI4	BI5	BI6
Cyfanswm y Disgyblion Cynradd Cyfrwng	<u>112</u>	<u>111</u>	<u>110</u>	108	92	92	87

Cymraeg			
<ul style="list-style-type: none"> Y ffigurau wedi eu tanlinellu yw nifer y disgyblion y disgwylir iddynt lenwi'r lleoedd sydd ar gael, yn dilyn asesiad o leoedd yn haf 2017 a'r rhagdybiaeth na fydd unrhyw ddisgybl yn gadael. Byddem yn disgwyl ar y cyfan y câi rhan fwyaf yr hwyrdyfodiaid eu derbyn i CA1 ond oherwydd nad yw'n bosibl rhagfynegi ym mha flwyddyn cânt eu derbyn, nid ydynt wedi eu cynnwys yn y targedau cyffredinol ar gyfer plant saith oed, ond caiff yr ymrwymiad hwn ei nodi ar wahân. 			
Y sefyllfa bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Ehangu darpariaeth	4.5%	5.4%	4.8%
Nifer a chanran y plant saith oed sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.	90 disgybl	107 disgybl	96 disgybl
Nifer y plant sy'n mynd i Gylch Meithrin ac yn pontio i ddosbarth meithrin neu ddosbarth derbyn yng Nghasnewydd.	65% 17 disgybl	75% 20 disgybl	100% 26 disgybl
Nifer y plant o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n dilyn y rhaglen drochi gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd.	4 disgybl	16 disgybl	20 disgybl
<p>Amcanion er mwyn cyflawni'r deilliant hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynyddu nifer y plant saith oed sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddio prosesau systematig ar gyfer mesur y galw am ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth addysgol statudol trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoi gwybodaeth i rieni ynghylch y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr awdurdod lleol, gan gynnwys rhoi adborth ac ymateb yn briodol i ganfyddiadau'r arolygon rhieni. Cynnal y cysylltiadau rhwng Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd a Blynyddoedd Cynnar Casnewydd a'r Bartneriaeth Datblygu Gofal Plant i weithredu camau mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar. Hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn ysgol yn fwy, gan gynnwys (Mudiad Meithrin) Dechrau'n Deg a gofal plant estynedig. Hyrwyddo'r cyfle trochi ar gyfer hwyrdyfodiaid. <p>Datganiad Ategol:</p> <p>Yng Nghasnewydd, mae canlyniad yr Arolwg ar Alw Rhieni am Addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â'r dadansoddiad o'r duedd hanesyddol, yn awgrymu y bydd y galw am addysg cyfrwng Cymraeg cyn ysgol a chynradd yn aros yn weddol gyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae agor yr ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg newydd, Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, yn debygol o effeithio'n gadarnhaol ar nifer y plant saith oed</p>			

sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf.

Yn yr awdurdod lleol, mae tair ysgol gynradd sy'n cynnig cyfanswm nifer derbyn o 107 ym mhob grŵp blwyddyn (ac eithrio'r ddarpariaeth feithrin). Yn dilyn asesiad o leoedd yn haf 2017, mae'r nifer derbyn wedi codi i 112. Awgrymir y byddai ailasesiad o leoedd yn y tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn briodol os oes twf cynyddol am leoedd mewn ysgolion cynradd gyfrwng Cymraeg, er mwyn datblygu cynlluniau ar gyfer o leiaf 0.5 dosbarth mynediad neu 105 o leoedd ysgol gynradd ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol hwn. Bydd angen gallu rhoi'r fath gynlluniau ar waith yn syth oherwydd y cafwyd cynnydd annisgwyl yn nifer y ceisiadau am leoedd ysgol ar gyfer mis Medi 2016 o 4.45% i bron 6% o gyfanswm poblogaeth oedran cynradd Casnewydd. Bydd yr awdurdod yn gweithio â chyrrff llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ac Ysgol Gymraeg Casnewydd ac yn ystyried a ellid eu hehangu yn rhaglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif y dyfodol.

Yn y blynyddoedd diweddar, bu buddsoddiad cyfalaf yn y sector addysg gynradd gyfrwng Cymraeg tua £1.5 miliwn – mae hyn yn cynnwys creu ysgol feithrin newydd yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon a gwelliannau mewnol ychwanegol. Yn Ysgol Gymraeg Ifor Hael, mae gwaith adnewyddu 3 ystafell ddosbarth, sy'n cynnwys man 'cymunedol' ar gyfer gwasanaethau eraill, wedi ei gwblhau.

Bydd darpariaeth drochi ar gael yn ein tair ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg ar gyfer tymor haf 2017. Cytunwyd ag ysgolion cynradd Cymraeg Casnewydd ar brotocol sy'n nodi dull gweithredu cyson o gynorthwyo plant nad oes fawr o Gymraeg ganddynt neu ddim o gwbl, a chynnig trochi yn yr ysgolion yn hytrach nag mewn canolfan yn un o ysgolion y ddinas. Yn dilyn derbyn disgybl i ysgol, rhoddir cyfnod trochi a chymorth am dymor fel arfer, er bod darpariaeth ar gyfer cynnig cymorth am gyfnod hwy os oes Anghenion Dysgu Ychwanegol neu amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnydd cyfyngedig. Mae arian ar gael ar gyfer pob un o'r tair ysgol er mwyn cefnogi'r rhaglen drochi. Ystyrir bod y dull hwn yn cynnig y fantais o fod yn fwy cynaliadwy nag uned sengl. Adolygir y protocol yn flynyddol. Prif ystyriaeth fydd sut y gall ein hysgolion weithredu'n gyson o ran hwyrddyfodiaid a sicrhau llwyddiant y dull. Mae hyrwyddo trochi'n rhoi ffordd o leihau lleoedd gwag yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r niferoedd yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Agorodd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ym mis Medi 2016 a derbyniodd 83 disgybl. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol mewn safle dros dro wrth i'r gwaith ar yr adeilad newydd yn mynd rhagddo. Mae'r ysgol dros dro ar safle Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon. Bydd y project £32.5 miliwn newydd yn darparu bloc ysgol oedran uwchradd cyfrwng Cymraeg pwrpasol newydd sbon ynghyd ag addasiadau allanol ac mae disgwyl y bydd yn weithredol ar y safle parhaol ym mis Medi 2018. Bydd safle a lleoliad Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon yn gallu dychwelyd i fod yn ddarpariaeth ar gyfer oedran cynradd yn unig a bydd lle ychwanegol ar gyfer gwasanaethau eraill.

Yn ystod 2015, comisiynodd Dechrau'n Deg ymgynghoriad i asesu'r galw ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas yn y dyfodol. Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhieni a gofalwyr wrth ddewis darpariaeth Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant, yn benodol materion sy'n gysylltiedig â'r galw posibl am y Gymraeg. Mae'r holiadur yn nodi'r cefndir ac yn egluro diben yr ymgynghoriad. O ganlyniad i'r arolwg, crëwyd 14 o leoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant dwy a thair oed sy'n byw yng nghanol y ddinas i wella hygyrchedd ar gyfer teuluoedd. Caiff 16 o leoedd eraill eu creu erbyn mis Ionawr 2017 yn nwyrain y ddinas, a amlygwyd yn yr ymgynghoriad Dechrau'n Deg ac yn yr Arolwg Galw Rhieni am Addysg

Gymraeg fel ardal lle mae galw.

Mae Dechrau'n Deg yn hyrwyddo'r Gymraeg fel a ganlyn:

- GGiD a Dechrau'n Deg i hyrwyddo mewn digwyddiadau gyrfaoedd ysgol Cyfrwng Cymraeg a Saesneg (mynd i o leiaf dau ddigwyddiad y flwyddyn)
- Dechrau'n Deg i gael ei hachredu trwy gymorth sefydliad cyffredinol i sicrhau sicrwydd ansawdd ym mhob lleolia d Gofal Plant cyfrwng Cymraeg ar o leiaf lefel efydd.
- Datblygu prentisiaethau/swyddi cynorthwyr (cyfrwng Cymraeg) – tri lle.
- Cynnal a chynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gwneud cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys Blwyddyn 2 Lefel 1 Hyfforddiant Cymraeg (saith aelod o staff wedi cofrestru) a chysiau byr eraill yn fewnol trwy Gyngor Dinas Casnewydd.

Mae Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Casnewydd wedi nodi bod creu gwell ymwybyddiaeth o ofal plant a darpariaeth addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg, ynghyd â'u hargaeledd, ar draws Casnewydd yn flaenoriaeth ar gyfer gwaith y grŵp hwn yn 2016-2018. Mae'r camau gweithredu a nodwyd yn cynnwys hyrwyddo gofal plant a lleoliadau cyn ysgol cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau bod digon o ofal plant ac addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg trwy Gasnewydd. Cytunwyd bod hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrhau ei bod ar gael yn swyddogaeth bwysig i'r grŵp hwn er mwyn rhoi i rieni ddewis o ddarpariaeth sydd ar gael i'r un graddau.

Dyma ffyrdd rydym yn cynllunio hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg:

- Gweithredu'r project Cymraeg i Blant ar gyfer hyrwyddo gwaith cylchoedd Ti a Fi a'r Cylchoedd Meithrin a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn gynnar.
- Cynnal lleoliadau cyfrwng Cymraeg presennol.
- Datblygu dau Gylch Meithrin cyn ac ar ôl ysgol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu dau gylch Ti a Fi newydd (gan gynnwys datblygu un gwasanaeth CS erbyn mis Rhagfyr 2016).

Byddwn yn gweithio â'r Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r Mudiad Meithrin i gytuno ar dargedau ychwanegol ar gyfer cynyddu nifer y lleoedd Blynyddoedd Cynnar a meithrin ym mhob blwyddyn o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd Casnewydd yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol wrth gynllunio datblygu'r lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a denu gweithlu Cymraeg wedi ei hyfforddi'n briodol.

Cyflwynir ceisiadau am arian ychwanegol yn y cyfnod 2017/18 ar gyfer adnoddau yn y Clybiau y Tu Allan i'r Ysgol, gyda ffocws ar gynnig gwasanaeth ADY a chyfrwng Cymraeg. Bydd adnoddau ychwanegol yn galluogi darparu adnoddau dwyieithog ym mhob un o'r lleoliadau yng Nghasnewydd i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg pan fo'n addas, a rhannu diwylliant Cymru trwy chwarae.

Dengys canfyddiadau'r Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant diweddaraf gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017 fod nifer sylweddol o rieni a gwarchodwyr yn annhebygol o ystyried addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd nad ydynt yn ymwybodol o'r manteision. Mae 2 Gylch Meithrin yn y ddinas ar hyn o bryd (haf 2017): Tŷ Norfolk a'r Delyn, sy'n cynnig 36 o leoedd rhyngddynt. Mae hyn yn darparu ar gyfer 2 ward yn y ddinas.

Ynghyd â'r lleoliadau Dechrau'n Deg, mae hyn yn gadael dwy ward ar bymtheg heb ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae cynlluniau cychwynnol ar gyfer datblygu'r canlynol:

- Cylch meithrin yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnion, gan Mudiad Meithrin a chyda chymorth gan y Tîm Blynyddoedd Cynnar a GGiD; a
- Darpariaeth gofal dydd cyfrwng Cymraeg o bosibl gyda darparwr annibynnol, gyda chefnogaeth Mudiad Meithrin trwy gcontract cymorth gofal plant GGiD.

Yn ogystal â chynyddu darpariaeth, gallai hyrwyddo ac efallai gynyddu'r cyfleoedd i rieni a theuluoedd fynd ar gyrsiau Cymraeg helpu i leihau gofidion rhieni dros gefnogi eu plant wrth iddynt dderbyn darpariaeth trwy gyfrwng Cymraeg yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol.

Mae'r gwaith partneriaeth gyda Chlybiau Plant Cymru yn gwneud cynnydd da ac mae wedi datblygu gweithlu AGGCC mawr ei angen sy'n targedu darparwyr Clybiau y Tu Allan i'r Ysgol. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth ym mhob sector ac ym mhob lleoliad yn deg a bod yr holl bolisiâu a'r protocolau yn unol â'r Cyngor a gofynion AGGCC.

Dyma fraslun o'r camau gweithredu a gynllunnir i hyrwyddo gofal plant trwy gyfrwng Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r sectorau gofal cyn ysgol:

- Pedwar gweithdy Cymraeg gan y Mudiad Meithrin dan y contract gofal plant.
- Dwy Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith gan y Fenter Iaith;
- Cynnal cymorth ieithyddol gan y Swyddog Datblygu trwy'r Mudiad Meithrin a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (bydd y meysydd cymorth a math y darparu yn amrywio yn ôl yr angen).

Roedd y dadansoddiad o'r arolygon barn rhieni yn 2012 a 2015 yn dangos y gallai'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg fod tua 5% o gyfanswm y boblogaeth oedran cynradd yn y blynyddoedd a ddaw. Nod y cylch nesaf ar gyfer y Fforwm Rhanbarthol Cymraeg mewn Addysg yw cynnal pedwar grŵp gorchwyl a gorffen i fwrw ymlaen â rhaglenni gwaith sylweddol. Mae un grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygiadau yn y Blynyddoedd Cynnar. Bydd gan yr is-grŵp hwn swyddogion perthnasol o bob awdurdod lleol trwy ardal consortiwm de-ddwyrain Cymru, y Mudiad Meithrin a'r tair Menter Iaith yn y rhanbarth yn ogystal â chynrychiolaeth gan RhAG neu sefydliadau eraill mewn cyfarfodydd perthnasol eraill.

Bydd y meysydd ffocws cyntaf yn cynnwys

- Cynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth, gan gynnwys datblygu darpariaeth newydd yn ogystal ag

ehangu'r ddarpariaeth bresennol trwy newid yn yr eiddo neu gynnig gwasanaethau ychwanegol.

- Hyfforddi a recriwtio staff a gwella sgiliau Cymraeg y rhanbarth er mwyn datblygu cysondeb yn y defnydd iaith gan staff y lleoliadau gofal plant i hyrwyddo caffael iaith, gan gynnwys cysylltu â'r ysgol gynradd fwydo ar gyfer cynnal cysondeb yn y defnydd o'r iaith i gefnogi pontio cadarnhaol.
- Cynaliadwyedd a chymorth busnes i sicrhau bod gan yr holl ddarpariaethau gofal plant gynlluniau busnes i'w cynnal a chynyddu trwy gyfnod y cynllun hwn.
- Bydd y ffocws hwn yn ystyried sut y gall lleoliadau gofal plant dderbyn lleoedd a ariennir trwy'r Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar i wneud y budd mwyaf o unrhyw arian a dderbynnir yn ogystal â chynnig gwasanaeth ehangach i rieni sy'n talu ffioedd ac sy'n cynnig darpariaeth gymunedol.
- Gwella'r cyfraddau pontio rhwng y cylchoedd a'r ysgolion cynradd.
-

Bydd y Cynnig Gofal Plant yn gofyn am nifer sylweddol o leoedd gofal plant ychwanegol a gall eu lleoliad fod yn hanfodol i'w cynaliadwyedd. Felly bydd y grŵp hwn yn cysylltu, trwy'r Fforwm Addysg Gymraeg Rhanbarthol, â'r is-grŵp sy'n trafod cynllunio lleoedd ysgol.

Ceir data (os yw ar gael) sy'n ategu'r holl Ddeilliannau yn Atodiad 1.

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau ieithyddol wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Dyma'r sefyllfa bresennol a'r targedau ar gyfer y 3 blynedd nesaf o ran nifer y dysgwyr ym Mlwyddyn naw a gaiff eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf):

Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Canran y dysgwyr ym Mlwyddyn 9 a asesir trwy gyfrwng Cymraeg (iaith gyntaf) ar hyn o bryd yw 3.42% (57 disgybl)	2.9% (50 disgybl)	4.23% (74 disgybl)	4.35% (74 disgybl)
Dyma gymharu'r ffigur hwn â chanran y dysgwyr ym Mlwyddyn 6 a aseswyd yn y Gymraeg dair blynedd ynghynt: 2.59% (43 disgybl)	3.02% (51 disgybl)	4.52% (78 disgybl)	5.17% (86 disgybl)

(DS: Mae'r ffigurau hyn ar sail nifer y disgyblion yn CYBLD. Nid ydynt yn cynnwys plant a allant ddod trwy'r llwybr trochi a byddai'n anodd rhagfynegi'r gwir ffigurau).

Amcanion er mwyn cyflawni'r deilliant hwn:

- Cynyddu canran y dysgwyr ym Mlwyddyn naw a asesir yn Gymraeg (iaith Gyntaf) a rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.
- Cynyddu nifer y lleoliadau gofal plant Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan 3 oed a'r lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a ariennir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu pontio mwy effeithiol o'r darpariaethau nas cynhelir a ariennir i ddarpariaeth ysgol a gynhelir.
- Datblygu pontio mwy effeithiol rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3.

Datganiad Ategol:

Mae manylion dan Ddeilliant 1 ynghylch y camau gweithredu a gynigiwyd i greu mwy o alw am ofal plant cyfrwng Cymraeg ac ar yr un pryd, mae sylwebaeth gyda thargedau mesuradwy dan Ddeilliant 1 ar gyfer darpariaeth trochi i blant mewn ysgolion cynradd. Mae mwy o gyfleoedd i bontio disgyblion a ddysgir trwy gyfrwng Cymraeg rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 yn dilyn agor ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyntaf Casnewydd ym mis medi 2016. Disgwylir i'r ddarpariaeth hon gynorthwyo disgyblion a rhieni i gael mynediad i ddarpariaeth Cyfnod Allweddol 3 yn haws. Dechreuodd y grŵp cyntaf o ddisgyblion Mlwyddyn 6 yn drydedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Casnewydd ym mis medi 2017. Mae hyn yn cynyddu'n sylweddol nifer y dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf ym Mlwyddyn 6 y mae disgwyl iddynt bontio i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r clwstwr cyfrwng Cymraeg wedi llunio cynllun pontio sy'n ystyried lles emosiynol a chymdeithasol, addysgeg effeithiol ac ymgysylltiad â rhieni i sicrhau'r gyfradd bontio orau o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â gweledigaeth yr awdurdodau lleol o greu llwybr dysgu di-dor. Mae disgwyl i'r cynnydd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg y ddinas sbarduno'r galw. Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn parhau i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg trwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Cydnabyddir bod y rhan fwyaf o rieni'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg ar gyfer eu plant ar oedran cynnar. Gyda hyn dan sylw, byddwn yn gweithio gyda'r holl bartneriaid i ddiwallu a chynyddu'r galw am leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan dair oer a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a ariennir nas cynhelir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen, i godi canran y dysgwyr a asesir ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3 ar ôl 2020. Ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd ynghylch y galw ar gyfer teuluoedd sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach, mae protocol ac arian at y diben hwnnw wedi ei ddatblygu ar y cyd â'r tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd i gynnig a chynorthwyo trochi a phontio. Caiff y trefniadau hyn eu hadolygu wedi un flwyddyn academaidd i sicrhau cysondeb dull ac arfer gorau.

Ceir data (os yw ar gael) sy'n ategu'r holl Ddeilliannau yn Atodiad 1.

Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio i ennill cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gweithle.

Caiff yr holl bynciau (ac eithrio Saesneg) eu haddysgu yn Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, gan gynnwys Mathemateg a Gwyddoniaeth er mwyn i'r dysgwyr astudio ar gyfer cymwysterau trwy'r iaith. Bwriad Casnewydd yw gweithio mewn partneriaeth â Choleg Gwent ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg eraill y rhanbarth i gynnig cymwysterau galwedigaethol.

Dyma'n sefyllfa bresennol sy'n gysylltiedig â chanran y dysgwyr a gofrestrodd am TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ac am o leiaf 2 gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 arall trwy gyfrwng y Gymraeg:

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Pob disgybl mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw 100%	100%	100%	100%
			A phob disgybl yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed 2020/21 100%

Amcanion:

- Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn cydymffurfio â Mesurau Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

- Cynrychiolaeth i Gyngor Dinas Casnewydd er mwyn gweithio trwy'r Rhwydweithiau 14-19 a'r Fforymau Rhanbarthol 14-19 i gynnal a gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Cyngor Dinas Casnewydd i nodi'r data a gafwyd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19 a chynllunio ar gyfer darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg gyda phartneriaethau.

Datganiad Ategol:

Mae disgyblion Casnewydd mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn pontio i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Prin y mae'r eithriadau i hyn. Mae disgyblion Casnewydd sydd ar hyn o bryd yn mynd i Ysgol Gyfun Gwynllyw yn cael eu cofrestru ar gyfer 2 TGAU Mathemateg, 2 TGAU Gwyddoniaeth a 2 TGAU dewisol yn ogystal â Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ogystal â Chymraeg a Llenyddiaeth Gymraeg, na chynhwysir yn y data. Bydd agor Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn rhoi mynediad i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn lleol i'r nifer cynyddol o ddisgyblion sydd yng Nghasnewydd.

Dyma ein sefyllfa a'n targedau presennol ynglŷn â chanran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a hefyd, sy'n cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf **5** cymhwyster lefel 1 neu lefel 2 **arall** trwy gyfrwng y Gymraeg:

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Holl ddisgyblion addysg cyfrwng Cymraeg Ysgol Gyfun Gwynllyw 100%	100%	100%	100%
			A holl ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwent Is Coed 2020-2021 100%

Amcanion:

- Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.
- Cynnal darpariaeth 14 i 19 ar lefel gweithgareddau darpariaeth grant 14 i 19.
- Gweithio trwy Rwydweithiau 14 i 19 a Fforymau Rhanbarthol 14 i 19 i gynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Datganiad Ategol:

Bydd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn cydweithio ag Ysgol Gyfun Gwynllyw (Torfaen) ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (Caerffili) i sicrhau bod

digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer cyrsiau TGAU i ddisgyblion yng Nghasnewydd. Mae'r ddwy ysgol sefydledig yn cydweithio'n agos ac maent wedi bod yn arloesol o ran sicrhau darpariaeth 14-19 ffyniannus trwy'r strategaeth 'Partneriaeth 6'. Mae diddymu'r grantiau 14-19 yn peri bygythiad sylweddol i'r strategaeth hon ac argaeledd y cyrsiau i ddisgyblion Casnewydd sy'n mynd i Ysgol Gyfun Gwynllyw ar hyn o bryd. Mae costau cludiant yn straen ychwanegol ar ddichonoldeb cyrsiau.

Mae llawer o ymgynghori â dysgwyr ynghylch dewis 14-16 a 16-19 a dylai hyn gychwyn ymhell cyn gosod dewisiadau ac amserlen. Bydd yn sicrhau:

- Bod gan ddysgwyr y nifer ehangaf o opsiynau ar sail eu dewisiadau, a
- Bod y dewisiadau'n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r dysgwr.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gyfun Gwynllyw wedi dangos lefel y bartneriaeth a'r cydweithredu yn y cwricwlwm i'r graddau lle mae staff yn teithio i addysgu cyrsiau eraill neu gyrsiau â niferoedd isel. Mae'r ysgolion yn y de-ddwyrain hyd yma wedi gallu ateb gofynion y mesur a chynnig 30 pwnc. O ganlyniad uniongyrchol i ostyngiad yn yr arian ar gyfer addysg 14-19, caiff cyfres y cyrsiau sydd ar gael ei theilwra'n briodol, gan weithio â'r holl sectorau, gan gynnwys Coleg Gwent ac ysgolion lleol cyfrwng Saesneg. Bydd yn rhaid i hyn gynnwys ymgynghori â dysgwyr ynghylch eu huchelgeisiau a chynnig cyfres newidiol o gyrsiau mewn partneriaeth yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cynyddu'n uniongyrchol y bartneriaeth a'r cydweithredu yn gyffredinol ar bob mater cwricwlwm.

Bydd yr awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer de-ddwyrain Cymru'n cynnig cymorth, hyfforddiant a her i ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn gwella eu safonau'n barhaus yng nghyd-destun y dangosyddion perfformiad. Bydd gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gyfun Gwynllyw hefyd yn parhau i ddatblygu, yn ogystal â gweithio partneriaeth â rhwydweithiau a fforymau Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG).

Defnyddir data i nodi cyrsiau llwyddiannus sy'n cael canlyniadau da. Caiff y rhain eu cynnal ond bydd y cyrsiau nad ydynt yn cyrraedd y safonau perfformiad yn cael eu harchwilio i bennu'r rheswm nad yw'r safonau hynny wedi eu cyrraedd ac i roi cynllun gweithredu ar waith i godi'r safonau isel.

Mae'r fforymau 14-19 wedi dod i ben yn swyddogol; fodd bynnag, mae CYDAG de ddwyrain Cymru yn parhau i gyfarfod i drafod y posibilrwydd o barhau arferion megis trefnu cynadleddau a chyfarfodydd cydweithrediad staff a oedd ar waith ym mis Mawrth 2016. Bydd angen creadigrwydd ac ymrwymiad i alluogi parhad.

Yn y gorffennol, mae Ysgol Gyfun Gwynllyw ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi cynnal cyfarfodydd llywodraethu ar y cyd i gasglu, dadansoddi a defnyddio'r data ar gyfer darpariaeth 14-19 cyfrwng Cymraeg a chynllunio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn y partneriaethau. Caiff hyn ei ail-lansio i gynnwys Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Mae 69 dysgwr sy'n siarad Cymraeg wedi cofrestru ar gyfer 2016/17 ar Gampws Casnewydd Coleg Gwent. Mae'r cofrestru yn dal i fynd rhagddo, felly mae'n bosibl i'r rhif hwn newid. Nid yw'n bosibl, yn y cam cynnar hwn, i'r coleg ddweud yn union faint o ddysgwyr sy'n astudio'n ddwyieithog, ond fel arfer mae hyn tua 1/3.

Mae'r coleg wedi gosod targed i godi nifer y dysgwyr sy'n astudio'n ddwyieithog gan 10% bob blwyddyn dros y tair blynedd nesaf.

Ceir data (os yw ar gael) sy'n ategu'r holl Ddeilliannau yn Atodiad 1.

Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau Cymraeg lefel uwch

Amcanion:

- Gwella'r ddarpariaeth i fynd i'r afael â llythrennedd yng Nghymru.
- Gwella'r ddarpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran i ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Cynyddu'r nifer sy'n gwneud Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith fel canran o'r rhai sy'n gwneud TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod rhagor o ddysgwyr â sgiliau Cymraeg lefel uwch, bydd yr awdurdod lleol, ynghyd â'i randdeiliaid, yn:

- Cynllunio'n strategol i ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwent Is Coed symud ymlaen yn uniongyrchol i addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16 wedi 2021;
- Sicrhau bod y Dirprwy Grŵp Cwricwlwm Ôl-16 yn gwybod am weledigaeth yr ALI i gynyddu nifer y dysgwyr UG a Safon Uwch mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chydweithio i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad i gyrsiau UG/Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith;
- Annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gynyddu darpariaeth ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yn CA3 a CA4 er mwyn cynyddu'r nifer sy'n gwneud y cwrs TGAU llawn o 35% (llinell sylfaen 2015) ac er mwyn defnyddio'r ddwy iaith yn eang fel dulliau cyfathrebu.
- Annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gyflwyno bron pob disgybl am gwrs llawn TGAU Cymraeg pan gaiff y cwrs byr presennol ei ddiddymu yn 2018 (nid oes rhaid cyflwyno disgyblion ar gyfer arholiad Cymraeg Ail Iaith) a chynllunio gweithredu Dyfodol Llewyrchus i sicrhau cymhwyster gweithredol ar gyfer pob disgybl 16 oed.

Datganiad Ategol:

Mae'r perfformiad yn gryf o ran Cymraeg Iaith Gyntaf/llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 a'r perfformiad yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y ddau gyfnod allweddol (roedd Casnewydd ar y brif yn y Cyfnod Sylfaen ac yn 7fed yn CA2). Mae arfer sy'n arwain y

sector yn ysgolion cynradd yr awdurdod ac wrth agor Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, bydd sicrhau dull cyffredin o ran llythrennedd ar draws y clwstwr yn cynorthwyo disgyblion wrth iddynt bontio i Gyfnod Allweddol 3. Bydd y clwstwr clos newydd yn datblygu polisi llythrennedd ac yn cydweithio â'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddatblygu project pontio llythrennedd yn unol â Chwricwlwm Donaldson, gan ddefnyddio strategaethau sydd eisoes yn bodoli ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol mewn ysgolion, a rhai eraill a ddatblygir gydag ysgolion y clwstwr ac ardal ehangach y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, megis 'Y Darllenwr Dysg', 'Ditectifs Darllen' a 'Seiliau Sgrifennu'.

Mae codi safonau llythrennedd Cymraeg/sgiliau Cymraeg yn flaenoriaeth wella benodol yng nghynllun busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, sy'n seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o berfformiad ysgolion a meysydd i'w datblygu. Adolygir y cynllun busnes bob chwe mis a chaiff ei ddiweddarau'n flynyddol. Cynllunnir anghenion hyfforddi'r gweithlu mewn perthynas â deilliannau ar draws y rhanbarth, yr ALI a'r clwstwr. Bydd yr ALI a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn cynnig cymorth a her i ysgolion er mwyn gwella eu safonau'n barhaus yng nghyd-destun dangosyddion perfformiad ac, yn benodol yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg, eu darpariaeth o ran y Gymraeg a dwyieithrwydd.

Caiff cymorth ei dargedu yn gyfrannol groes i lwyddiant. Mae gan yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n derbyn lefel uchel o gymorth a her o ran y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) gynlluniau unigryw a fonitir bob chwe wythnos. Yn ogystal â chymorth Cymraeg a methodoleg fewnol ar gyfer athrawon a chymorth ar gyfer arwain y Gymraeg gan dîm Cymraeg Gwasanaeth Cyflawni Addysg LIC, bydd

- Hyfforddiant iaith arbenigol canolog;
- Cymorth ar gyfer arweinwyr clwstwr a enwir dros y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) i wella adnoddau'r clwstwr;
- Rhwydweithiau arweinyddiaeth, gan gynnwys rhwydweithiau penaethiaid cyfrwng Cymraeg;
- Darpariaeth DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) gan athrawon ac ysgolion cynradd ac uwchradd arweiniol;
- Rhaglenni addysgu arbenigol i wella addysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg, 'Anelu at Ragoriaeth', a;
- Chymorth ar gyfer defnyddio rhaglenni Cymraeg (Siarter Iaith a PCAI) yn anffurfiol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Chymraeg Campus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Wrth i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dyfu, a'r dalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg newid, bydd cynnal y safonau uchel sydd eisoes wedi'u cyrraedd yn gofyn am ymdrech barhaus am ragoriaeth. Yn ogystal â dull trylwyr o asesu ar gyfer dysgu ac asesu dysgu, gan gynnwys cysoni mewnol ac ar draws y clwstwr, bydd mabwysiadu menter y *Siarter Iaith* o fis Medi 2016 yn cynorthwyo ysgolion i godi hyder eu disgyblion a chymhwysedd wrth ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, gan alluogi'r ysgolion i gynnal eu deilliannau da. Bydd ysgolion yn cael safon aur y *Siarter* erbyn mis Gorffennaf 2016. Bydd sicrhau parhad uniongyrchol disgyblion yn Ysgol Gwent Is Coed o CA4 i CA5 yn hanfodol er mwyn sicrhau bod nifer uchel o fyfyrwyr Casnewydd yn mynd ymlaen i CA5.

Mae perfformiad Cymraeg fel ail iaith yn CA2 yn gryf, ac yn sylweddol gryfach na chyfartaledd Cymru (roedd Casnewydd yn 2il yng Nghymru) ond mae'r perfformiad yn CA3 yn is na chyfartaledd Cymru. Bydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn monitro'r ddarpariaeth yn CA3 a CA4 ac yn adrodd i Gynghorwyr Herio a'r ALI am ddyrannu amser a statws niferoedd mewn grwpiau opsiynau yn flynyddol. Ceir y targedau presennol ar gyfer ysgolion uwchradd yn Atodiad 1.

Mewn cyfarfodydd â phenaethiaid uwchradd, bydd anogaeth i roi amser priodol ar gyfer astudio'r Gymraeg fel ail iaith, yn unol â'r TGAU

newydd a addysgir o fis Medi 2017 a chyda gofynion y cwricwlwm i sicrhau cymhwyster gweithredol erbyn diwedd CA4 i bob disgybl ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Y cwrs Cymraeg llawn fydd yr unig TGAU ar gynnig o 2018, a fydd yn sail fwy cadarn ar gyfer mynd ymlaen i'r Lefel UG a Safon Uwch. Fodd bynnag, bydd statws presennol y Gymraeg fel pwnc all-graidd yn parhau tan 2021. Mae'n rhaid i ddisgyblion astudio'r Gymraeg tan eu bod yn 16 oed ond nid oes gofyniad iddynt sefyll arholiad allanol yn Gymraeg. Bydd hyn yn parhau i fod yn rhwystr mawr rhag y twf yn y nifer sy'n astudio'r Gymraeg hyd at Safon Uwch

Cofnodwyd yn eang mai'r arholiadau sydd ar gael ar hyn o bryd i fyfyrwyr o 16 i 19 oed, yn arbennig o ran y Gymraeg, yw'r mwyaf priodol ar gyfer y rhan fwyaf o fyfyrwyr academiaidd. Mae hyn wedi effeithio ar y niferoedd sy'n sefyll yr arholiadau yn y gorffennol. Mae Casnewydd yn croesawu'r cyfle i ofyn bod Cwricwlwm Cymru'n adolygu ei amrywiaeth o gymwysterau yn y Gymraeg er mwyn sicrhau apêl ehangach a gwneud cyrsiau Cymraeg yn fwy perthnasol i'r byd gwaith heddiw, e.e. byddai cwrs galwedigaethol Cymraeg Proffesiynol Lefel 3 yn denu llawer.

Mae gan Goleg Gwent gyrsiau Cymraeg Ail Iaith ar gampysau Parthau Dysgu Coleg Gwent a Blaenau Gwent. Cynigir cyrsiau Cymraeg i ddysgwyr ar raglenni dwyieithog blaenoriaeth (e.e. gofal plant) trwy Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gwent. Mae gan y Coleg darged penodol o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cwblhau cyrsiau Cymraeg ychwanegol o 10% y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf. Caiff yr holl ddysgwyr sy'n cwblhau unedau ymwybyddiaeth iaith eu hannog i werthuso manteision dwyieithrwydd yn y gweithle. Mae gan y Coleg Glwb Cymraeg gweithredol sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau anffurfiol e.e. tripiâu, gweithgareddau awyr agored (Urdd). Mae'r Coleg wedi gosod targed ar gyfer cynyddu'r cyfranogiad mewn digwyddiadau'r Clwb Cymraeg o 10% y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf. Cynigir cyfleoedd datblygu staff i'r holl staff i ddatblygu eu sgiliau addysgu dwyieithog a gwreiddio'r elfen Gymraeg. Mae'r Coleg wedi gosod targed o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cwblhau'r gwaith yn Gymraeg o 10% y flwyddyn dros y 3 blynedd nesaf. Mae gan y Coleg berthynas waith dda â Menter Iaith ac mae nifer o weithgareddau a drefnir ar y cyd â'r Urdd.

Bydd y grwpiau Urdd a Menter Iaith lleol yn gweithio gydag ysgolion a'r gymuned i gynnig cyfleoedd i ymarfer eu sgiliau Cymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Bydd modd i ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg achub ar y cyfleoedd canlynol i ymarfer eu sgiliau Cymraeg mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol gyda phwyslais cynyddol ar gyfleoedd o du'r ddwy gymuned i gydweithio.

Ceir data (os yw ar gael) sy'n ategu'r holl Ddeilliannau yn Atodiad 1.

Mae rhaglen a thargedau Urdd Gobaith Cymru yn Atodiad 2.

Mae targedau Menter Iaith Casnewydd yn Atodiad 3.

Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.**Amcanion:**

Gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol gyfrwng Cymraeg trwy'r dulliau canlynol:

- Datblygu protocol symudiadau wedi'u rheoli rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y consortiwm i ddarparu ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o gael eu dadrithio neu eu diarddel erbyn mis Medi 2017;
- Datblygu cynlluniau i gynnig darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg mewn ysgol gynradd y brif lif yn y consortiwm;
- Cydweithio â phartneriaid Consortiwm De-ddwyrain Cymru i gynnig Seicoleg Addysgol a chymorth ADP yn Gymraeg;
- Gweithio'n agos gyda'r Cydlynnydd ADY/Pennaeth yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed i ddatblygu darpariaeth ADY o safon dda yn yr ysgol newydd.

Datganiad Ategol:

Mae darpariaeth ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi ei hasesu, yn ffurfiol ac anffurfiol, fel rhan o waith monitro darpariaeth ADY yn barhaus yng Nghasnewydd. Ar hyn o bryd mae gan 11 disgybl ddatganiad yn y pedair ysgol gyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, dim ond darpariaeth y brif ffrwd sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, h.y. caiff disgyblion eu cynorthwyo trwy Gynllun Datblygu Unigol a/neu Ddatganiadau AAA mewn ysgolion y brif ffrwd. Mae'n flaenoriaeth i ni weithio gyda'r clwstwr cyfrwng Cymraeg i sefydlu Canolfannau Adnoddau Dysgu. Bydd Casnewydd yn gweithio gydag awdurdodau eraill yn y rhanbarth i ddatblygu cymorth ADY.

Sefydlodd tîm y Gymraeg mewn Addysg y Gwasanaeth Cyflawni Addysg weithgor ADY i gefnogi Deilliant 6 y Cynllun Strategol yn 2016-17. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr yn yr ysgol (gynradd ac uwchradd) a gaiff eu haseinio gan Fforwm y Penaethiaid Cyfrwng Cymraeg a'r arbenigwyr ADY amlddisgyblaeth Cymraeg o'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth. Mae'r grŵp hwn nawr yn un o'r pedwar grŵp gorchwyl a gorffen cytunedig a fydd yn adrodd yn ffurfiol i Fforwm Rhanbarthol y Gymraeg mewn Addysg yn y cylch cynllunio nesaf. Caiff yr aelodaeth ei ffurfioli gan sicrhau bod aelodau trwy'r rhanbarth cyfan.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17, datblygodd y grŵp gyfeiriadur o arfer gorau rhanbarthol a chymorth sydd ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd y gwaith yn ystod y cylch cynllunio nesaf yn cynnwys:

- Datblygu'r pecyn cymorth arfer gorau rhanbarthol ymhellach a rhannu'r gwaith mewn ac ar draws awdurdodau lleol;
- Datblygu rhaglen hyfforddi ADY;
- Archwilio argaeledd arbenigedd i ysgolion o bob ALI ac awdurdodau cyfagos yn ffurfiol; ac
- Archwilio cyfleoedd rhanbarthol i rannu arbenigedd arbenigwyr.

Canfuwyd yn yr archwiliad diweddaraf o anghenion ychwanegol disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg mai prin yw'r mathau o angen na ellir darparu ar eu cyfer, ac eithrio efallai plant sy'n gorfforol anabl ac sy'n dymuno mynd i'r ysgol uwchradd bresennol. Fel arall, dylai pob un o'n hysgolion cyfrwng Cymraeg allu darparu ar gyfer ei disgyblion. Mae'r safle newydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd ac, wedi'i gwblhau,

bydd yn darparu ar gyfer plant ag anableddau corfforol.

Y brif broblem yw adnoddau yn Gymraeg, sy'n wir ar gyfer unrhyw ysgol gyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn fater sy'n derbyn sylw (dyfal donc) cydweithwyr ar y cyd ar draws y rhanbarth. Bydd yr adnoddau Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig sy'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd ar gael yn Gymraeg.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym **ddarpariaeth LRB** ar gyfer plant sydd mewn perygl o gael eu hallgáu, ond rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y consortiwm i asesu'r angen gyda'r nod o sefydlu darpariaeth ranbarthol os nodir bod angen, yn ogystal â Phrotocol Symudiadau wedi'u Rheoli yng Nghasnewydd a allai ledaenu ar draws awdurdodau.

Mae Seicolegydd Addysg ac Athro Ymgynghorol yn cynnal clinigau ym mhob meithrinfa, gan gynnwys meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg. Caiff disgyblion ag ADY eu nodi'n gynnar a'u dilyn i'r ddarpariaeth gynradd os yw'r rhieni'n gofyn am hynny. Nid ydym erioed wedi gwrthod addysg cyfrwng Cymraeg i unrhyw ddisgybl ag ADY. Bydd y broses hon yn parhau. Mae recriwtio Seicolegydd Addysg neu Athro Ymgynghorol sydd hefyd yn siarad Cymraeg wedi bod yn anodd. Nid oes gennym Seicolegydd Addysg nac Athro Ymgynghorol sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Caiff pob swydd yn y dyfodol ei hysbysebu fel 'Cymraeg yn ddymunol' er mwyn sicrhau proses recriwtio gyflym ond gadarn sy'n profi'r farchnad yn drylwyr. Mae Athro Anawsterau Dysgu Penodol sy'n siarad Cymraeg.

Caiff asesiad ADY ei gynnal yn flynyddol ar draws yr ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ceir data (os yw ar gael) sy'n ategu'r holl Ddeilliannau yn Atodiad 1.

Deiliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.

Amcanion:

- Archwilio'r galw ac asesu nifer y disgyblion sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn flynyddol er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer recriwtio staff a Chynorthwywyr Addysgu, yn arbennig i Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wrth i'r ddwy ysgol dyfu a phan fo pob ysgol yn cyrraedd ei niferoedd llawn.
- Cynllunio ar gyfer staffio canolfan drochi at y diben yng Nghasnewydd a chynllunio hefyd ar gyfer staffio'r cymorth AAA ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY.
- Archwilio ymarferwyr â sgiliau Cymraeg (athrawon a Chynorthwywyr Addysgu) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg a'r Cylchoedd Meithrin yn flynyddol i asesu'r anghenion hyfforddi.
- Llunio cynlluniau gwella ysgol i ddangos ymrwymiad i wella sgiliau iaith ymarferwyr trwy weithio gyda Swyddogion Cymraeg mewn Addysg (ysgolion cyfrwng Saesneg) a thrwy gynllunio ar gyfer rhyddhau staff yn systematig i fynd at Gynllun Sabothol i hyfforddi yn

ôl y dadansoddiad anghenion (ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg).

- Gwella sgiliau methodolegol ymarferwyr trwy waith y Swyddogion Cymraeg mewn Addysg a thrwy fentrau ysgol i ysgol a ddylunnir.
- Gweithio gydag awdurdodau rhanbarthol a chyfagos ar gynllunio'r gweithlu i sicrhau bod gweithwyr arbenigol megis Seicolegwyr Addysg ar gael i gynorthwyo ein hysgolion a'n lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Datganiad Ategol:

Mae'r niferoedd sy'n defnyddio'r cynllun hyfforddi sabothol yn y rhanbarth ar hyn o bryd yn isel (yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) ac nid oes cynllunio strategol ar ei gyfer, felly bydd yr ALI yn gweithio gydag ysgolion i gynllunio ar gyfer rhyddhau staff a Chynorthwyyr Addysgu i fynd i'r hyfforddiant mewn ymateb i anghenion a nodir trwy'r archwiliadau Cymraeg. Mae'n bosibl mabwysiadu dull fesul clwstwr. Bydd gwella sgiliau ieithyddol staff, yn arbennig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghasnewydd, yn hanfodol wrth weithredu gweledigaeth Dyfodol Llewyrchus.

Mae wyth athro o Gasnewydd wedi bod yn rhan o'r cynllun hyfforddi sabothol er 2013 ac aeth deg cynorthwyydd addysgu ar y cwrs yn 2014-2015. Mae pedwar athro cynradd yn cymryd rhan yn y cynllun sabothol ym mis Ionawr 2018.

Mae cydweithrediad da ar draws ysgolion yr ALI a thrwy'r model gweithio rhanbarthol. Mae rhaglen DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) cyfrwng Cymraeg sy'n ehangu ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg Casnewydd yn arwain wrth rannu arfer da o fewn cynllun cymorth ymgynghorol ac yn yr ysgol (methodoleg) ar y cyd, a gynllunnir yn ganolog. Yn ogystal mae rhaglen ysgol i ysgol ranbarthol i gynorthwyo athrawon i anelu at ragoriaeth yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg. '*Anelu at Ragoriaeth*'. Gall ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fanteisio ar raglen DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) eang ac amrywiol trwy raglen hyfforddiant iaith a methodoleg y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Hefyd, mae rhaglen ymyrraeth a dargedir ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a nodir er mwyn gwella ethos Cymraeg ysgolion ac iaith/methodoleg yr ymarferwyr.

Gall pob ysgol fanteisio ar raglenni arweinyddiaeth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (Paratoi i fod yn Bennaeth, NPQH a HT BI1 a BI5). Mae cymorth ar gyfer arweinwyr cyfrwng Cymraeg trwy raglenni partneriaeth cydweithwyr rhanbarthol, a modd i gynnig secondiadau rhanbarthol os yw'n briodol. Mae ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y rhanbarth yn gweithio mewn partneriaeth gref, gan drafod recriwtio yn rheolaidd, ac er mwyn recriwtio Cynorthwyyr Addysgu Cymraeg, maent yn trafod darparu cyrsiau addas (e.e. *Cache*) i ddisgyblion.

Mae gan Goleg Gwent raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer yr holl staff addysgu i ddatblygu eu sgiliau a gwreiddio'r agwedd Gymraeg. Mewn cydweithrediad a Sgiliaith, mae'r coleg yn cynnig hyfforddiant i reolwyr i wreiddio'r Gymraeg yn y cwricwlwm, yn ogystal â chymorth ymarferol er mwyn i staff addysgu gefnogi ac annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Ar hyn o bryd mae gan tua 6% o staff academaidd Coleg Gwent sgiliau Cymraeg, a chaiff yr aelodau staff hyn eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r sgiliau hyn â'u dysgwyr. Cynigir cyrsiau Cymraeg i Oedolion am ddim yn ystod oriau gwaith i holl staff Coleg Gwent a chofrestrodd 31 o aelodau staff ar gyfer y cwrs a gychwynnodd ym mis Medi 2006. Cymeradwyodd y coleg bolisi recriwtio newydd yn ddiweddar gyda'r nod o gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog o 10% y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf. O fis Medi 2016, bydd y swyddi sydd ym Meysydd

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Dwyieithrwydd (e.e. gofal plant) yn Gymraeg yn hanfodol neu bydd gofyn am ymrwymiad i ddysgu Cymraeg at lefel gymedrol o fewn dwy flynedd (wedi'i ariannu'n llawn gan y coleg).

Ceir data (os yw ar gael) sy'n ategu'r holl Ddeilliannau yn Atodiad 1.

Llofnod:

Dyddiad: Mehefin 2018

A handwritten signature in black ink that reads "Sarah Morgan". The signature is written in a cursive style and is positioned on a light-colored rectangular background.

Prif Swyddog Addysg, Cyngor Dinas Casnewydd

DATA: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Casnewydd 2017 - 2020

Atodiad 1

Cyfeirir at y data isod yng nghorff y Cynllun Strategol yng nghyd-destun y deiliant perthnasol.

Deiliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Ehangu darpariaeth

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Ehangu darpariaeth Nifer a chanran y plant saith oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.	4.5% 90 disgybl	5.4% 107 disgybl	4.8% 96 disgybl
Nifer y plant sy'n mynd i Gylch Meithrin ac yn pontio i ddsbarth meithrin neu ddsbarth derbyn cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd.	65% 17 disgybl	75% 20 disgybl	100% 26 disgybl
Nifer y plant o'r sector cynradd cyfrwng Saesneg sy'n derbyn darpariaeth drochi mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd	4 disgybl	16 disgybl	20 disgybl

Deiliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau ieithyddol wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Canran y dysgwyr ym Mlwyddyn 9 a asesir trwy gyfrwng Cymraeg (iaith gyntaf)? 3.42% (57 disgybl)	2.9% (50 disgybl)	4.23% (74 disgybl)	4.35% (74 disgybl)
Cymharu â chanran y dysgwyr ym Mlwyddyn 6 a aseswyd yn y Gymraeg dair blynedd ynghynt? 2.59% (43 disgybl)	3.02% (51 disgybl)	4.52% (78 disgybl)	5.17% (86 disgybl)
Pontio effeithiol a pharhad ieithyddol			
Beth yw cyfradd y cynnydd rhwng:			
<ul style="list-style-type: none"> Lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan dair oed a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir, sy'n cynnig y Cyfnod Sylfaen? 0 (nid oes gennym leoliad cyfrwng Cymraeg nas cynhelir sy'n cynnig y CS yng Nghasnewydd (daeth CM y Delyn i ben ar ddiwedd Gorffennaf 2016, felly ni fu pontio.) 	0	0	0
<ul style="list-style-type: none"> Lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i blant dan dair oed a lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a ariennir yn cynnig y Cyfnod Sylfaen. 	60%	70%	80%
<ul style="list-style-type: none"> 52% (aeth cyfanswm o 13 o 25 o leoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynhelir sy'n cynnig y CS). 	60%	70%	80%
<ul style="list-style-type: none"> Lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a ariennir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir? 50% (3 disgybl o 6, 1 disgybl o 2 o'r Delyn a 2 ddisgybl o 4 o Somerton) 	60%	70%	80%
<ul style="list-style-type: none"> Lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant dan dair oed a lleoliadau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog nas cynhelir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen ac yna ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog 	100%	100%	100%

a gynhelir	100%	100%	100%
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 101% (87 disgybl) <ul style="list-style-type: none"> - Bro Terynon – 107% (1 disgybl ychwanegol) - Casnewydd - 100% - Ifor Hael – 100% • Cyfnodau Allweddol 2 a 3 95.9% (73 disgybl) • Cyfnodau Allweddol 3 a 4 100% (29 disgybl) 	100%	100%	100%

Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio i ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gweithle.****Cynyddu canran y dysgwyr 14-16 oed sy'n astudio i ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.**

Canran bresennol y dysgwyr ym Mlwyddyn 11 sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ac sy'n astudio ar gyfer **dau neu ragor** o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg? (NID yw'r data hwn yn cynnwys llenyddiaeth Gymraeg. Mae TGAU cymhwysol, gwyddoniaeth dwbl yn cyftri fel dau bwnc; mae cyrsiau byrion yn cyftri fel un. Mae'n bosibl na fydd modd cynnwys BTEC oherwydd nad yw'r corff dyfarnu'n gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg)

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Pob disgybl mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw 100%	100%	100%	100%
Pob disgybl yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed erbyn 2020/21 100%			

Canran bresennol y dysgwyr ym Mlwyddyn 11 sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ac sy'n astudio ar gyfer **pump neu ragor** o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg?

(NID yw'r data hwn yn cynnwys llenyddiaeth Gymraeg. Mae TGAU cymhwysol, gwyddoniaeth ddwbl yn cyftri fel dau bwnc; mae cyrsiau byrion yn cyftri fel un. Mae'n bosibl na fydd modd cynnwys BTEC oherwydd nad yw'r corff dyfarnu'n gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg)

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Pob disgybl mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gwynllyw 100%	100%	100%	100%
Pob disgybl yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed erbyn 2020-2021 100%			

Cynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.

Dim data ar gael.

Deilliant 5: Rhagor o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg.

Y Sefyllfa Bresennol	2017/2018	2018/2019
<p>Cyfrwng Cymraeg:</p> <p>CS D5 97.7%</p> <p>CA2 L4 90.1%</p> <p>CA3 L5 92.6% (Disgyblion Casnewydd yn Ysgol Gwynllyw, Torfaen)</p> <p>CA4 A*-C Data ddim ar gael ar hyn o bryd</p>	<p>94.4%</p> <p>94.4%</p> <p>-</p> <p>-</p>	<p>93.9%</p> <p>92.6%</p> <p>-</p> <p>-</p>
<p>Cyfrwng Saesneg:</p> <p>CA2 L4 86.3% CA3 L5 83.4%</p> <p>CA4 A*-C Cwrs Llawn 73.3%</p> <p>16.9% o'r garfan</p> <p>CA4 A*-C Cwrs Byr 52.4%</p> <p>51.9% o'r garfan</p>	<p>87.7%</p> <p>90%</p> <p>70.1%</p> <p>63.3%</p>	<p>86.8%</p> <p>90.5%</p> <p>50.8%</p> <p>-</p>
<p>DS: Caiff data ei gasglu fel mater o broses yn dilyn cofrestru ar gyfer arholiad, nid yn ôl i niferoedd sydd ar y gofrestr yn astudio Cymraeg oherwydd bod y rhif hwnnw'n amrywio. Caiff ei fonitro serch hynny.</p>		
<p>Roedd 35% o'r garfan yng Nghasnewydd yn astudio Cwrs TGAU Llawn Cymraeg Ail Iaith yn 2015. Nid yw'r Cwrs Byr yn cynnig llwybr addas at Lefel UG/A ac mae'r ffaith ei fod ar gael yn effeithio ar y niferoedd sy'n gwneud y Cwrs Llawn a dichonoldeb niferoedd yr opsiwn. Bydd Cymwysterau Cymru'n diddymu'r Cwrs Byr o 2018.</p>		
<p>Cofrestrodd 6 myfyriwr ar gyfer cyrsiau Cymraeg Ail Iaith Lefel UG CA5 yn 2015.</p>		
<p>Cofrestrodd 21 o fyfyrwr ar gyfer cyrsiau Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch CA5 yn 2015.</p> <p>Nid yw data 2016 eisoes ar gael ond ni fydd mwy na chwe disgybl yn cofrestru ar gyfer Safon Uwch yn 2016 ar sail niferoedd Lefel UG 2015.</p>		

<p>Cymraeg: Ni fydd disgyblion yn sefyll Safon Uwch yn Ysgol Gwent Is Coed tan haf 2023. Cymraeg Ail Iaith: Cofrestrodd 6 myfyriwr ar gyfer cyrsiau Cymraeg Ail Iaith Lefel UG CA5 yn 2015. Cofrestrodd 21 myfyriwr ar gyfer cyrsiau Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch CA5 yn 2015.</p>	<p>Dim disgwyl cynnydd tan ddiwedd y'r Cwrs Byr a gweithredu'r Cwrs Llawn i bawb** yn 2017.</p>	
<p>Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf</p>	<p>94.4%</p>	<p>92.6%</p>
<p>Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen mewn Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog? 94.5%</p>	<p>94.4%</p>	<p>92.6%</p>
<p>Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn Asesiad Athro yn Gymraeg? 90.1%</p>	<p>-</p>	<p>-</p>
<p>Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn Asesiad Athro yn Gymraeg? 92.6% (Disgyblion Casnewydd yn Ysgol Gwynllyw), 87.7: (yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, Torfaen)</p>	<p>-</p>	<p>-</p>
<p>Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cael graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith gyntaf? Data ddim ar gael</p>	<p>87.7%</p>	<p>86.8%</p>
<p>Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 yn yr Asesiad Athro Cymraeg Ail Iaith?</p>	<p>90%</p> <p>70.1%</p>	<p>90.5%</p> <p>50.8%</p>

<p>Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 yn yr Asesiad Athro Cymraeg Ail Iaith?</p> <p>Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sydd wedi'i cofrestru ar gyfer graddau A*-C yn y Cwrs Llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith ac sy'n cyflawni'r rhain? (DS: Mae'r garfan yn cynyddu o 232 i 1,275)</p> <p>Beth yw canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cael graddau A*-C yn y Cwrs Byr TGAU Cymraeg Ail Iaith? (DS: Bydd y cwrs byr TGAU yn dod i ben)</p> <p>Beth yw'r targedau ar gyfer gwella ym mhob un o'r uchod - naill ai bob blwyddyn neu erbyn diwedd cyfnod tair blynedd y cynllun? Gosodir y targedau ar gyfer gwella perfformiad disgyblion gan yr ysgolion ar sail data lefelau'r disgyblion unigol. Caiff y rhain eu monitro a'u herio gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg bob tymor.</p> <p>Canran y garfan a gofrestrwyd ar gyfer (i) Cwrs Llawn TGAU Ail Iaith 16.9% y garfan; (ii) Cwrs Byr TGAU Ail Iaith 51.9% o'r garfan; a (iii) heb eu cofrestru ar gyfer y naill neu'r llall. 31.2%</p> <p>Rhagor o ddysgwyr â sgiliau Cymraeg lefel uwch Cyfanswm y nifer sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf fel canran o'r rhai a gofrestrodd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt. Nid yw'r data ar gael ar gyfer 2016. Cofrestrodd pum disgybl yn y rhanbarth (does dim data penodol i Gasnewydd) o'r 406 a gofrestrodd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2015.</p> <p>Cyfanswm y nifer sy'n cofrestru ar gyfer Safon Uwch Cymraeg ail iaith fel canran o'r rhai a gofrestrodd ar gyfer y cwrs llawn a byr TGAU Cymraeg iaith gyntaf ddwy flynedd ynghynt. 2.9% 26 cofrestriad yn 2016 (data Casnewydd). 82% o'r garfan TGAU wedi cofrestru (Casnewydd) yn 2014. Carfan o 1108.</p>	<p>63.3</p> <p>i) 331 disgybl ii) 1,074</p>	<p>-</p> <p>ii)1,275 ii)0</p>
---	---	-----------------------------------

--	--	--

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod data Cymraeg ail iaith Cyfnod Allweddol 3 yn anfoddhaol. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y canlyniad hwn a'r cyfle i gwblhau Cymraeg cwrs byr/cwrs hir (oherwydd ei fod yn rhoi llwybr i ddysgwyr barhau ac yn cefnogi ymgysylltu â'r dysgwr). Ystyriwyd cyrhaeddiad Cymraeg ail iaith yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 trwy drefniadau gosod targedau'r ALI. Yn 2016-17, bu'r Prif Swyddog Addysg yn cymeradwyo targedau priodol ar gyfer Cymraeg yn CA3 a 4 a gosod targedau lle nad oedd uchelgais i'w weld. Mae'r drafodaeth, cymorth a her i ysgolion Casnewydd yn y maes hwn yn parhau a bu'n brif nodwedd yn 'Adolygiadau Perfformiad Academaidd' ysgolion uwchradd yn nhymor hydref 2017.

Mae'r awdurdod yn comisiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gefnogi Cymraeg ail iaith mewn ysgolion uwchradd. Mae cynlluniau cefnogi unigryw yn eu lle i fynd i'r afael â chyrhaeddiad is na'r disgwyl yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 ac i ddatblygu llwybrau dysgu priodol yn y pwnc hwn. Os yw'r ysgolion yn y categorïau oren neu goch, caiff y rhain eu monitro gan yr ALI a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Mae'r Cynghorwyr Herio yn monitro cynnydd ysgolion melyn a gwyrdd.

Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dim data ar gael.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.

Dim data ar gael.

Rhaglen a Thargedau Urdd Gobaith Cymru

Atodiad 2

Mae Casnewydd yn gwneud cyfraniad ar y cyd (â Blaenau Gwent) at gostau ymarferydd yr Urdd, sy'n gweithredu ar draws yr awdurdod i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc yn Gymraeg mewn cyfleusterau sefydledig megis ysgolion, clybiau ar ôl ysgol a.y.b.

Caiff y model darparu presennol ei adolygu yn fuan wrth i ni geisio blaenoriaethu trefniadau gwaith gwasanaeth ar y cyd yn y dyfodol, lle caiff Cynllun Project penodol iawn ei gynhyrchu. Mae'r ffocws yn debygol o fod ar ddefnyddio adnoddau'r gwasanaeth yn synhwyrol i wella hygyrchedd darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno siarad Cymraeg. Mae cynlluniau project yn cael eu datblygu ar gyfer y rhaglen a ddylai nodi amcanion, amserlenni a thargedau ar gyfer y rhaglen weithgareddau.

	Ysgolion Cyfrwng Cymraeg	Ysgolion Cyfrwng Saesneg
Urdd Gobaith Cymru	<p>Ysgolion cynradd</p> <p>Adran yr Urdd – Bob wythnos ar gyfer blynyddoedd 3 i 6 yng nghanol Casnewydd. Amrywiaeth o weithgareddau ar gael, gan gynnwys teithiau.</p> <p>Digwyddiadau Chwaraeon yn cynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, pêl-droed, gymnasteg, rygbi tag a chriced.</p> <p>Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys canu, dawnsio a llefaru.</p> <p>Tripiau preswyl i'n tair canolfan: Llangrannog, Glan Llyn a Chaerdydd.</p> <p>Jambori</p> <p>Ysgolion uwchradd</p> <p>Clwb Urdd wythnosol yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed – Amrywiaeth o weithgareddau ar</p>	<p>Ysgolion cynradd</p> <p>Digwyddiadau Chwaraeon gan gynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, pêl-droed, gymnasteg, rygbi tag a chriced.</p> <p>Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau yn cynnwys canu, dawnsio a llefaru. Mae cystadlaethau penodol ar gyfer dysgwyr.</p> <p>Tripiau preswyl i'n tair canolfan: Llangrannog, Glan Llyn a Chaerdydd.</p> <p>Jamborî</p> <p>Ysgolion uwchradd</p> <p>Digwyddiadau Chwaraeon gan gynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, pêl-droed a gymnasteg.</p>

	<p>gael,</p> <p>Digwyddiadau Chwaraeon yn cynnwys rygbi, pêl-rwyd, nofio, pêl-droed a gymnasteg.</p> <p>Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys canu, dawnsio a llefaru.</p> <p>Tripiau preswyl i'n tair canolfan: Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd.</p> <p>Teithiau dramor i Disneyland Paris a Sbaen.</p> <p>Amrywiaeth o deithiau dydd.</p> <p>Fforwm Cymraeg Ieuencid</p> <p>Cyfleoedd Gwirfoddoli</p> <p>Achrediad</p> <p>Mae'r holl weithgareddau hyn yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.</p>	<p>Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys canu, dawnsio a llefaru. Mae cystadlaethau penodol ar gyfer dysgwyr.</p> <p>Tripiau preswyl i'n tair canolfan: Llangrannog, Glan Llyn a Chaerdydd.</p> <p>Amrywiaeth o deithiau dydd.</p> <p>Cyfleoedd Gwirfoddoli</p> <p>Achrediad</p> <p>Clybiau Cymraeg Amser Cinio bob wythnos</p> <p>Sesiynau sgwrsio anffurfiol</p> <p>Mae'r holl weithgareddau hyn yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.</p>
--	---	--

Rhaglen a Thargedau Menter Iaith Casnewydd

Atodiad 3

<p>Menter Iaith Casnewydd Nod Menter Iaith Casnewydd yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd gan blant ac oedolion a'i gwneud yn iaith sy'n rhan o gydwead cymdeithasol y ddinas trwy roi'r gallu i bobl fyw a gweithio yn Gymraeg.</p> <p>Mae'r Mentrau Iaith yn sefydliadau deinamig, gwirfoddol, cymunedol sy'n hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg trwy Gymru. Mae Menter Iaith Casnewydd yn gweithio yng nghymunedau Casnewydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl o bob oed trwy drefnu digwyddiadau cymdeithasol a gweithio mewn partneriaeth â busnesau a sefydliadau lleol i wneud y Gymraeg yn fwy hygyrch i bawb yn y ddinas.</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Parhau i gydlynu gweithgareddau Sbot a Sbri dros y gwyliau ar gyfer disgyblion oedran cynradd ysgolion cyfrwng Cymraeg. 2. Datblygu darpariaeth Sbot a Sbri ar ôl ysgol yn y tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. 3. Cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc gyda phartneriaid lleol, 4. yn amodol ar adnoddau ac arian digonol a'r cyfleoedd amrywiol sy'n codi yn ystod cyfnod y cynllun. 5. Parhau i gynnal asesiad anghenion gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i fapio cyfleoedd Cymraeg sydd ar gael yn y ddinas a chreu strategaeth ar y cyd â phartneriaid lleol i geisio llenwi'r bylchau a pharhau i sbarduno darpariaeth gymdeithasol. Cydlynu'r strategaeth trwy'r Fforwm Iaith a fforymau lleol perthnasol eraill ac fel rhan o strategaeth Gymraeg 5 mlynedd Cyngor Dinas Casnewydd i gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas. 6. Parhau i fod yn aelod o Gomisiwn Tegwch Casnewydd fel aelod craidd trwy gyfrannu at waith y comisiwn dros gyfnod y cynllun a chysylltu rhaglen waith y Comisiwn â gwaith y Fenter gyda phlant a phobl ifanc Casnewydd. 7. Parhau i ddatblygu'r Fforwm Ieuenctid Cymunedol yn Ysgol Gyfun Gwynllyw i gyfrannu at gynllun gwaith Menter Iaith Casnewydd ac ymateb i anghenion pobl ifanc wrth iddynt ddefnyddio'u Cymraeg yn y gymuned a chael cynrychiolaeth ar Fforwm Ieuenctid Casnewydd. 8. Sefydlu a datblygu Fforwm Ieuenctid Cymunedol yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed i gyfrannu at gynllun gwaith Menter Iaith Casnewydd ac ymateb i anghenion pobl ifanc wrth iddynt ddefnyddio'u Cymraeg yn y gymuned a chael cynrychiolaeth ar Fforwm Ieuenctid Casnewydd. 9. Parhau i fod yn aelod gweithredol o Bartneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnal a Gofal Plant Casnewydd. 10. Ymateb i ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol ar faterion perthnasol i'n gwaith fel Menter Iaith leol yng Nghasnewydd, sy'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. 11. Rhoi cymorth a chanllaw i unrhyw un sydd am ddysgu rhagor am y Gymraeg a sut mae cael mynediad i'r iaith yng Nghasnewydd.
--	--

Data'r Mudiad Meithrin**Atodiad 4**

Ardal	Lleoliad	Nifer yn pontio i addysg cyfrwng Cymraeg	% yn pontio i addysg cyfrwng Cymraeg
Casnewydd	Tŷ Blossom	1	16.67%
Casnewydd	Somerton	1	20.00%
Casnewydd	Tŷ Norfolk	1	100.00%
Casnewydd	Y Delyn	14	73.68%

Rhestr o ymgynghoriad statudol

Atodiad 5

Mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori ar y cynllun ar ei ffurf ddrafft a bydd y cyfnod ymgynghori'n para wyth wythnos.

Ceir yr amserlenni ar gyfer y broses ymgynghori a chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn Atodiad 5.

Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013:

- Awdurdodau lleol cyfagos
- Pennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo
- Corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir ganddo
- Pob sefydliad yn y sector addysg bellach yn ei ardal
- Mewn perthynas ag unrhyw ysgol sefydledig neu wirfoddol yn ei ardal -
 - y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig
 - os oes naws grefyddol i'r ysgol, y corff crefyddol priodol
- Pobl eraill a enwyd.

Rhestrir y "pobl eraill a enwyd" yn Rheoliad 9:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnal a Gofal Plant
- Cynghorau ysgol
- Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru
- Sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn eu gweld yn addas
- Pobl neu gyrff eraill y mae'r awdurdod lleol yn eu gweld yn addas.

Amserlenni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Dinas Casnewydd 2017-2020

Atodiad 6

2016	
12 Hydref	Cyngor Dinas Casnewydd i lansio ymgynghoriad o'r Cynllun Strategol Drafft – dylai'r ymgynghoriad bara o leiaf wyth wythnos (Rheoliadau 9 (3)) Caiff y Cynllun Strategol drafft, gan gynnwys yr amserlenni, ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i ddsbarthu i'r holl randdeiliaid
7 Tachwedd	Gweithdy ar gyfer Aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd i nodi'r sylwadau hyd yn hyn ynghylch yr ymgynghoriad a chael rhagor o wybodaeth ar gyfer drafft terfynol y Cynllun Strategol.
Ganol Tachwedd	Llywodraeth Cymru i anfon data Mudiad Meithrin i'r awdurdodau lleol.
6 Rhagfyr	Cyfnod ymgynghori'n dod i ben
7-9 Rhagfyr	Llunio Drafft Terfynol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
12-16 Rhagfyr	Aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd yn arwyddo Drafft Terfynol y Cynllun Strategol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru
20 Rhagfyr	Cyngor Dinas Casnewydd i gyflwyno Drafft Terfynol y Cynllun Strategol i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi fel drafft ar wefan y Cyngor.
2017	
31 Ionawr	Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r awdurdodau lleol o benderfyniad y Gweinidog
14 Chwefror	Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno newidiadau gan Gyngor Dinas Casnewydd
Mawrth 2017	Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adolygiad o'r holl Gynlluniau Strategol dan arweiniad Aled Roberts
Mai 2017	Cyfarfod ag Aled Roberts a rhoi eglurdeb ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Casnewydd
Gorffennaf 2017	Diweddaru'r Cynllun Strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru gydag eglurhad
Awst 2017	Adborth gweinidogion ar y Cynllun Strategol

26 Medi 2017	Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd – newyddion ar y drafft diwygiedig a'r cynlluniau ar gyfer ymgynghoriad.
2 Hydref -13 Tachwedd 2017	Ymgynghoriad ar y drafft diwygiedig
Diwedd Tachwedd 2017	Cyflwyno'r Cynllun Strategol drafft i'r gweinidog gydag adborth o'r ymgynghoriad
2018	
16 Mawrth 2018	Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru i bob cyngor yn sôn am yr amlen ariannu werth £30 miliwn i gynorthwyo projectau cyfalaf.
31 Mai 2018	Cyflwyno'r Cynllun Strategol drafft diwygiedig i'r gweinidog.
1 Mehefin 2018	Cyflwyno Cynnig Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg
14 Mehefin 2018	Cymeradwyo'r Cynllun Strategol diwygiedig gan Gabinet Cyngor Dinas Casnewydd.